# Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig

## Diweddariad

## Teyrnas Unedig Prydain Fawr a Gogledd Iwerddon

**26 Gorffennaf 2018**

## Cynnwys

Byrfoddau / Geirfa .......... 3

Diweddariad ers ymateb y DU ar 29 Awst 2017 i argymhellion yr UPR .......... 4

- Fframwaith hawliau dynol domestig, gan gynnwys statws cytundebau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig .......... 5
- Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a genethod .......... 7
- Mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil .......... 10
- Mynediad at gyfiawnder .......... 11
- Mynd i'r afael â masnachu pobl a chaethwasiaeth .......... 15

Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron .......... 18

Tiriogaethau Tramor .......... 21

**Byrfoddau / Geirfa**

| | |
|---|---|
| BAME | Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig |
| CAT | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig yn Erbyn Arteithio a Thriniaeth neu Gosb Greulon, Annynol neu Ddiraddiol arall |
| CEDAW | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn Erbyn Menywod |
| CRC | Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn |
| Tiriogaethau Dibynnol ar Goron Prydain | Mae tair Tiriogaeth Ddibynnol ar y Goron[1]: Beilïaeth Guernsey; Beilïaeth Jersey; Ynys Manaw |
| ECHR | Confensiwn Cyngor Ewrop er Diogelu Hawliau Dynol a Rhyddid Sylfaenol |
| ECtHR | Llys Hawliau Dynol Ewrop Cyngor Ewrop |
| UE | Yr Undeb Ewropeaidd |
| FGM | Anffurfio Organau Cenhedlu Menywod |
| Confensiwn Istanbul | Confensiwn Cyngor Ewrop ar atal a mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a thrais domestig |
| Confensiwn Lanzarote | Confensiwn Cyngor Ewrop ar Amddiffyn Plant rhag Camfanteisio Rhywiol a Cham-drin Rhywiol |
| Tiriogaethau Tramor | Mae pedair ar ddeg o Diriogaethau Tramor Prydain ond deg yn unig sydd â phoblogaethau parhaol, sef: Anguilla; Bermuda; Ynysoedd Cayman; Ynysoedd Falkland; Gibraltar; Montserrat; grŵp Pitcairn, Henderson, Ducie ac Oeno; grŵp St Helena, Ascension, Tristan da Cunha; Ynysoedd Turks a Caicos; Ynysoedd y Wyryf (a adwaenir fel arfer fel Ynysoedd Prydeinig y Wyryf) |
| DU | Y Deyrnas Unedig (Cymru, Lloegr, Yr Alban, Gogledd Iwerddon) |
| UN | Y Cenhedloedd Unedig |
| UPR | Adolygiad Cyfnodol Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig |
| VAWG | Trais yn erbyn menywod a genethod |

[1] https://www.gov.uk/government/publications/crown-dependencies-jersey-guernsey-and-the-isle-of-man

**Diweddariad ers ymateb y DU ar 29 Awst 2017 i argymhellion yr UPR**

1. Yn ei hymateb[2] i argymhellion yr UPR a gafwyd yn ystod y ddeialog â'r Cyngor Hawliau Dynol ar 4 Mai 2017, ymrwymodd Llywodraeth y DU i wneud gwaith dilynol ar yr argymhellion drwy: baratoi diweddariad ar hyd at bum argymhelliad yn 2018; ac adroddiad canol tymor ar bob un o'r argymhellion yn 2019.

2. Mae'r ddogfen hon yn cadarnhau'r ymrwymiad i wneud gwaith dilynol yn 2018, ac mae'n seiliedig ar gyfraniadau gan adrannau canolog perthnasol, y Gweinyddiaethau Datganoledig, Tiriogaethau Dibynnol y Goron a, thrwy'r Swyddfa Dramor a Chymanwlad, y Tiriogaethau Tramor. O gofio ystod y materion a godwyd yn sgil 227 o argymhellion yr UPR a gafodd y DU yn 2017, gwnaethpwyd penderfyniad i beidio â dewis pum argymhelliad unigol, ond yn hytrach i ymdrin â phum maes thematig o argymhellion yr UPR.

3. Wrth ddethol y pum maes thematig, roedd Llywodraeth y DU wedi ystyried barn mudiadau cymdeithas sifil a Sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol y DU yn ystod Mawrth-Ebrill 2018. Roedd y sylwadau a gafwyd gan y cyrff hyn, ac mae Llywodraeth y DU yn falch iawn o'u cael, yn amlwg yn adlewyrchu amrywiaeth buddiannau a safbwyntiau'r gwahanol fudiadau. Wrth wneud penderfyniad terfynol ar y pum maes, dewisodd Llywodraeth y DU y rhai hynny a oedd wedi denu cryn ddiddordeb cyffredin. Y rhain oedd:
    - fframwaith hawliau dynol domestig, gan gynnwys statws cytundebau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig;
    - mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a genethod;
    - mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil;
    - mynediad at gyfiawnder; a
    - mynd i'r afael â masnachu pobl a chaethwasiaeth.

4. Hoffem hefyd roi sylw i rai o'r materion eraill a nodwyd fel meysydd thematig pwysig o fewn yr UPR gan fudiadau cymdeithas sifil a'r Sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol, ac roedd y rhain yn cynnwys: hawliau plant; Deddf Hawliau i Ogledd Iwerddon; deddfwriaeth erthyliadau yng Ngogledd Iwerddon; ymchwilio i farwolaethau'n gysylltiedig â'r gwrthdaro yng Ngogledd Iwerddon; effaith y diwygiadau lles; gweithredu Deddf Cydraddoldeb 2010 yn llawn; a chydymffurfiaeth hawliau dynol â deddfwriaeth gwrthderfysgaeth. Fel y nodwyd uchod, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i roi diweddariad ar <u>holl</u> argymhellion yr UPS yn 2019, ac rydym felly'n disgwyl ystyried y meysydd ychwanegol hyn fel rhan o'r broses honno. Edrychwn ymlaen at ymgysylltu â chymdeithas sifil a Sefydliadau Hawliau Dynol Cenedlaethol y DU ar hyn yn y man.

.

[2] https://www.gov.uk/government/publications/third-universal-periodic-review-uk-response-to-the-recommendations

**Fframwaith hawliau dynol domestig, gan gynnwys statws cytundebau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig**[3]

5. Ni fu newid arwyddocaol yn safbwynt Llywodraeth y DU ar y **fframwaith hawliau dynol domestig** ers Awst 2017. Mae gan y DU draddodiad hir o sicrhau bod ein hawliau a'n rhyddid yn cael eu diogelu'n ddomestig ac o gyflawni ein hymrwymiadau hawliau dynol rhyngwladol. Mae ein hymrwymiad i hawliau dynol yn perthyn i'r cyfnod cyn i'r DU ymuno â'r Undeb Ewropeaidd, ac nid yw'r penderfyniad i adael yn newid yr ymrwymiad hwn. Nid oes cynlluniau i dynnu'n ôl o'r ECHR. Bydd Llywodraeth y DU yn ystyried fframwaith cyfreithiol hawliau dynol ymhellach pan fydd y broses o adael yr UE wedi'i chwblhau.

6. Mae hawliau'n parhau i gael eu hamddiffyn yn ddomestig trwy Ddeddf Hawliau Dynol 1998 – sy'n gweithredu'r ECHR ymhellach – a thrwy'r statudau datganoli, yn ogystal â darnau allweddol eraill o ddeddfwriaeth fel y Deddfau Cydraddoldeb, a'r gyfraith gyffredin. Ym mis Rhagfyr 2017[4], cyflwynodd Llywodraeth y DU ei hadroddiad i Senedd y DU ar weithredu dyfarniadau hawliau dynol gan yr ECtHR a'n llysoedd domestig. Dangosodd yr adroddiad fod y DU, ar ddiwedd 2016, yn gyfrifol am 21 (0.2%) yn unig allan o gyfanswm o 9,941 ddyfarniadau arfaethedig[5] gerbron Pwyllgor Gweinidogion Cyngor Ewrop, sy'n is nag mewn Gwladwriaethau eraill â phoblogaeth debyg.

7. Nid yw **statws cytundebau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig** ychwaith wedi newid ers Awst 2017. Mae'r DU wedi rhoi cyfuniad o bolisïau a deddfwriaeth ar waith i weithredu cytundebau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig mae wedi'u cadarnhau[6]. Nid yw cytundebau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig wedi'u hymgorffori yng nghyfraith ddomestig y DU, ac nid oes gofyniad ar Bleidiau Gwladwriaethau i wneud hynny. Ers Awst 2017, mae'r DU wedi cwblhau'r cerrig milltir canlynol yn y broses adrodd cyfnodol ar hawliau dynol i'r Cenhedloedd Unedig: 6[ed] adroddiad cyfnodol o dan CAT[7]; 8[fed] adroddiad cyfnodol o dan CEDAW[8]. Ar hyn o bryd nid oes dim un adroddiad hawliau dynol i'r Cenhedloedd Unedig sy'n hwyr.

*Yr Alban*

8. Roedd Rhaglen Lywodraethu 2017-18 Llywodraeth yr Alban yn cynnwys ymrwymiad i: *"establish an expert advisory group to lead a participatory process to make recommendations on how Scotland can continue to lead by example in human rights, including economic, social, cultural and environmental rights"*. Mae **Grŵp Cynghori**

---

[3] Yn benodol, argymhellion canlynol yr UPR: 134.56-61; 134.66-78.
[4] https://www.gov.uk/government/publications/responding-to-human-rights-judgments-2016-to-2017
[5] Mae'r rhain yn ddyfarniadau gwrthwynebus sy'n cael eu gweithredu o dan oruchwyliaeth Cyngor Ewrop.
[6] Am drosolwg o fesurau'r DU i weithredu cytundebau hawliau dynol y Cenhedloedd Unedig, gweler adroddiadau cyfnodol y DU o dan bob cytundeb yn http://tbinternet.ohchr.org/_layouts/TreatyBodyExternal/countries.aspx.
[7] https://www.gov.uk/government/publications/convention-against-torture-and-other-cruel-inhuman-or-degrading-treatment-or-punishment-periodic-report
[8] https://www.gov.uk/government/publications/8th-report-to-the-committee-on-the-elimination-of-discrimination-against-women

**Prif Weinidog Yr Alban ar Arweinyddiaeth Hawliau Dynol**[9] yn cael ei gadeirio gan gyn-gadeirydd Comisiwn Hawliau Dynol Yr Alban, yr Athro Alan Miller, ac mae'n cynnwys Cadeirydd presennol y Comisiwn ymhlith ei aelodau. Mae saith aelod arall yn cyfrannu arbenigedd ar hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol, ac ar faterion yr UE a chyfansoddiadol. Bydd y Grŵp yn gwneud ei waith yn annibynnol ar y llywodraeth a gofynnwyd iddo adrodd erbyn diwedd 2018. Bydd yn edrych ar effaith gadael yr UE ar hawliau dynol, a sut i warchod a hyrwyddo pob hawl dynol ym mhob sefyllfa bosibl. Bydd y Grŵp hefyd yn rhoi ystyriaeth benodol i'r posibilrwydd o ymgorffori cytundebau hawliau dynol rhyngwladol yng nghyfraith Yr Alban, a sut y gellid mynd ati i wneud hyn un ymarferol.

9. Mae Rhaglen Lywodraethu 2017-18 hefyd yn cynnwys ymrwymiad i gynnal archwiliad cynhwysfawr ar y ffordd fwyaf effeithiol ac ymarferol i wreiddio egwyddorion y **CRC** mewn deddfwriaeth, polisi ac ymarfer, gan gynnwys yr opsiwn o ymgorfforiad llawn yng nghyfraith Yr Alban. Bydd yr archwiliad yn edrych hefyd ar yr ystod lawn o faterion deddfwriaethol a chyflawni sy'n berthnasol i hawliau plant a'r egwyddorion sy'n ategu'r CRC. Bydd gwaith yn gysylltiedig â'r archwiliad hefyd yn holi barn plant a phobl ifanc. Nid yw'r union amserlenni wedi'u pennu eto a bydd rhanddeiliaid yn cael eu diweddaru.

[9] https://beta.gov.scot/groups/first-ministers-advisory-group-on-human-rights-leadership/

**Mynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a genethod**[10]

10. Rhwng 8 Mawrth a 31 Mai 2018, cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad eang ar y **Bil Cam-drin Domestig drafft** a'r pecyn anneddfwriaethol. Roedd yr ymgynghoriad yn cyflwyno dull y llywodraeth o ddelio â cham-drin domestig ym mhob cam, o atal i adsefydlu, ac roedd yn cadarnhau nod y llywodraeth o wneud cam-drin domestig yn fater i bawb. Roedd yn gofyn am sylwadau ar y camau y gallwn eu cymryd i godi ymwybyddiaeth, i helpu dioddefwyr, a sicrhau bod cyflawnwyr yn cael eu hatal, gan gynnwys cynigion deddfwriaethol a phecyn o gamau ymarferol. Rydym yn awr yn y broses o adolygu'r ymatebion.

11. Mae'r DU wedi ymrwymo o hyd i gadarnhau **Confensiwn Istanbul** cyn gynted â phosibl. Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddwyd yr Adroddiad Cynnydd cyntaf[11] gennym a oedd yn nodi'r camau sy'n ofynnol i gadarnhau'r Confensiwn. Yn yr ymgynghoriad ar y Bil Cam-drin Domestig, cynigiodd Llywodraeth y DU ymestyn yr awdurdodaeth alldiriogaethol ar gyfer troseddau sy'n ofynnol yn ôl y Confensiwn pan fyddant wedi'u cyflawni dramor gan wladolion neu breswylwyr y DU. Bydd hyn yn galluogi Cymru a Lloegr i gydymffurfio â gofynion awdurdodaeth y Confensiwn.

12. Mae Llywodraeth y DU o blaid cyflwyno **Gorchymyn Amddiffyn rhag Stelcio** sifil newydd trwy'r Bil Amddiffyn rhag Stelcio, ar ôl i ymatebion i ymgynghoriad cyhoeddus amlygu bwlch sylweddol yn y gyfundrefn gorchmynion amddiffyn bresennol – yn enwedig mewn achosion o'r hyn a elwir yn 'stelcio gan ddieithriaid', lle nad oed gan y cyflawnwr gysylltiad â'r dioddefwr yn awr neu yn y gorffennol. Bwriad y Bil Amddiffyn rhag Stelcio yw rhoi erfyn arall i'r heddlu i amddiffyn dioddefwyr stelcio a llenwi'r bwlch yn y gyfundrefn gorchymyn amddiffyn presennol, sy'n ategu gwaith ehangach y llywodraeth ar hyn o bryd i fynd i'r afael â VAWG. Pasiodd y Bil Amddiffyn rhag Stelcio yr Ail Ddarlleniad ar 19 Ionawr a bydd yn mynd ymlaen i'r cam pwyllgor cyn gynted at y bydd amser seneddol yn caniatáu.

13. Mae Llywodraeth y DU yn parhau i wneud cynnydd yn achos **Cynllun Gweithredu Strategaeth** VAWG, sydd wedi cael £100m yn ystod y Senedd hon.

*Gogledd Iwerddon*

14. Mae'r Adran Cymunedau, yr Adran Iechyd a'r Adran Cyfiawnder wedi cyfrannu at strategaeth saith mlynedd "Stopping Domestic and Sexual Violence and Abuse in Northern Ireland"[12] Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon. Mae'r Adrannau'n **gweithio â'r holl randdeiliaid i weithredu ei blaenoriaethau strategol**.

[10] Yn benodol argymhellion canlynol yr UPR: 134.43-134.48 (ar gadarnhau Confensiwn Istanbul); a 134.180-134.188 (ar fynd i'r afael â VAWG, FGM a phriodi dan orfod).
[11] https://www.gov.uk/government/publications/ratification-of-the-council-of-europe-convention-on-combating-violence-against-women-and-domestic-violence
[12] https://www.health-ni.gov.uk/publications/stopping-domestic-and-sexual-violence-and-abuse-northern-ireland-strategy

15. Mae'r Adran Cymunedau, trwy Weithrediaeth Tai Gogledd Iwerddon, yn rhoi cyllid y **Rhaglen Cefnogi Pobl** yn flynyddol i'r corff anllywodraethol "Cymorth i Fenywod" sydd dros £4.5 miliwn. Hefyd, mae'r Adran Cymunedau yn cefnogi'r **Llinell Gymorth Trais Domestig a Rhywiol** 24 awr, sy'n cael ei darparu ar hyn o bryd gan y corff anllywodraethol "Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Gogledd Iwerddon". Mae'r Llinell Gymorth yn darparu gwybodaeth, cyngor a chymorth i bwy bynnag sy'n cael eu heffeithio gan drais a cham-drin domestig a rhywiol yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r Llinell Gymorth yn cael ei hariannu ar y cyd gan yr Adran Iechyd, yr Adran Cyfiawnder a'r Adran Gymunedau. Mae'r Adrannau hyn hefyd yn ariannu'r **Rowan Sexual Assault Referral Centre for Northern Ireland**, sydd hefyd yn cynnig cymorth i rai sydd wedi profi trais a cham-drin rhywiol.

*Yr Alban*

Mae **Deddf Cam-drin Domestig (Yr Alban) 2018**[13] 1. yn creu trosedd benodol newydd o gam-drin domestig, sy'n ei gwneud yn drosedd i rywun ymddwyn mewn ffordd sy'n gamdriniol tuag at eu partner. Mae'r diffiniad yn cynnwys trais corfforol a bygythiadau amlwg, a cham-drin seicolegol ac ymddygiad sy'n gorfodi ac yn rheoli, sy'n anodd ei herlyn o dan y gyfraith bresennol. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth ar gyfer nifer o ddiwygiadau i weithdrefnau troseddol gyda'r bwriad o atal cam-drin achwynydd trwy broses y llys, er enghraifft trwy wahardd y sawl a gyhuddwyd rhag cyflwyno eu hamddiffyniad eu hunain neu ragholi'r achwynydd. Mae'n cynnwys rhagdybiaeth yn erbyn mechnïaeth os yw rhywun wedi'i gyhuddo pan gafodd ei dditio o drosedd cam-drin domestig - neu unrhyw drosedd rywiol neu dreisgar ddifrifol - ac sydd â hanes blaenorol o droseddu treisgar, rhywiol neu gam-drin domestig difrifol.

2. Mae'r Ddeddf hefyd yn cynnwys rhagdybiaeth y bydd y llys yn rhoi gorchymyn dim aflonyddu ar unigolyn a gafwyd yn euog o gam-drin domestig oni bai, yn yr achos penodol hwnnw, bod y llys yn dod i'r casgliad nad oes angen gorchymyn o'r fath i amddiffyn y dioddefwr. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaeth i gynyddu dedfrydau statudol fel y bydd y drosedd yn cael ei ystyried yn fwy difrifol os yw'r cyflawnwr yn defnyddio plentyn i gyflawni'r drosedd; yn cyfeirio ymddygiad at blentyn wrth gyflawni'r drosedd; lle mae plentyn yn gweld, yn clywed neu'n bresennol pan fydd y cam-drin yn digwydd; neu lle mae plentyn yn debygol o fod wedi'i effeithio'n andwyol gan ymddygiad y cyflawnwr. Lle gellir profi'r gwaethygiad, bydd yn rhaid i'r llys gadw hyn mewn cof wrth ddedfrydu'r troseddwr a datgan ym mha ffordd mae'r ddedfryd yn wahanol i'r hyn y byddai'r llys wedi'i roi fel arall. Mae hyn yn sicrhau bod y niwed a achoswyd i blant yn sgil cam-drin eu rhiant neu ofalwr yn cael ei gydnabod a'i gofnodi'n ffurfiol.

3. Disgwylir y bydd y drosedd newydd yn dod i rym yn gynnar yn 2019. Mae gweithredu effeithiol yn bwysig: mae Llywodraeth Yr Alban yn sicrhau y bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i 14,000 o heddlu a staff, ac mae'n gweithio â'r Heddlu, Swyddfa'r Goron a Gwasanaeth y Procuradur Ffisgal a rhanddeiliaid yn y trydydd sector i ystyried pa fesurau fydd yn rhaid eu rhoi ar waith.

[13] http://www.legislation.gov.uk/asp/2018/5/contents/enacted

*Cymru*

4. O ganlyniad i **Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol Llywodraeth Cymru**, rhaid i awdurdodau perthnasol yng Nghymru sicrhau bod eu holl staff yn cael eu hyfforddi i ddeall beth yw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, i adnabod yr arwyddion a deall eu rôl i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu pecyn e-ddysgu i gyflawni'r canlyniadau dysgu hyn, ac roedd, erbyn Awst 2017 wedi'i gwblhau gan dros 70,000 o bobl.

16. Fel rhan o'i hymrwymiad i wneud ymyrraeth gynnar ac atal yn flaenoriaeth, mae Llywodraeth Cymru wedi datblygu "**Gofyn a Gweithredu**"[14], polisi a rhaglen hyfforddi arloesol ar gyfer gweithwyr allweddol mewn gwasanaethau cyhoeddus i ymgymryd ag ymholiadau wedi'u targedu i ganfod cam-drin. Ym mis Tachwedd 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddau ganllaw gweithio drafft ar "Gofyn a Gweithredu" i helpu i'w gyflwyno ledled Cymru.

17. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio dwy **ymgyrch genedlaethol ar drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.** Nod DYMA FI, a lansiwyd fis Ionawr 2018, yw herio stereoteipiau rhyweddol mewn ffordd bositif ac annog pobl i 'fyw heb ofn' cyfyngiadau rhyweddol a normau rhyweddol. Nod yr ymgyrch "Paid cadw'n Dawel", a lansiwyd fis Ebrill 2018, yw dangos pa mor rymus y gall ymyrraeth bositif â rhywun sy'n profi neu sydd wedi profi trais fod. Roedd datblygiad y ddwy ymgyrch yn dibynnu'n gryf ar brofiadau goroeswyr cam-drin gan gynnwys un sydd wedi goroesi FGM.

18. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i ymgysylltu mewn modd cynaliadwy â goroeswyr. Ym mis Mawrth 2018, lansiodd ymgynghoriad ar gynigion ar gyfer **Fframwaith Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â Goroeswyr**[15]. Roedd yr opsiynau'n seiliedig ar ymgysylltiad â goroeswyr a gynhaliwyd yn ystod Hydref 2017.

[14] http://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/ask-and-act?lang=cy
[15] http://livefearfree.gov.wales/policies-and-guidance/national-survivor-engagement-framework?lang=cy

**Mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil**[16]

19. Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU brif ganfyddiadau'r datganiad data cyntaf o'r **Archwiliad Anghyfartaledd ar sail Hil**. Lansiodd y Prif Weinidog yr Archwiliad Anghyfartaledd ar sail Hil ym mis Awst 2016 i edrych ar anghydraddoldebau hiliol yn ein gwasanaethau cyhoeddus. Mae'n amlygu'r gwahaniaethau mewn canlyniadau i bobl o wahanol gefndiroedd, ym mhob maes, o iechyd i addysg, gofal plant i lesiant, cyflogaeth, sgiliau a chyfiawnder troseddol. Yr archwiliad hwn yw'r cyntaf o'i fath ac mae'n helpu i amlygu'r anghydraddoldebau lle maent yn bodoli, gan alluogi Llywodraeth y DU – ac yn bwysicach na hynny, cymdeithas yn ei chyfanrwydd – i ganfod meysydd lle mae angen newid.

20. Ym mis Rhagfyr, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei **hymateb i adolygiad Lammy**[17] **gan** nodi'r camau rydym wedi'u cymryd (neu y byddwn yn eu cymryd) ar yr argymhellion gan David Lammy AS ar y driniaeth a gaiff unigolion BAME yn y system cyfiawnder troseddol yng Nghymru a Lloegr a'r canlyniadau iddynt. Ym mis Rhagfyr, trefnodd Llywodraeth y DU **seminar gweinidogol ar gasineb ar y rhyngrwyd**, a oedd yn dwyn ynghyd grwpiau dioddefwyr, rhanddeiliaid a chynrychiolwyr o'r diwydiant, gyda'r nod o ganfod y ffyrdd gorau i fynd i'r afael â'r broblem gynyddol hon.

21. Rhwng Mawrth a Mehefin 2018, bu Llywodraeth y DU yn ymgynghori ar **Bapur Gwyrdd Strategaeth Cymunedau Integredig**[18]. Mae gennym hanes balch fel cymdeithas aml-hil, aml-ffydd, aml-ddiwylliant a bydd hynny'n parhau. Mae gan y Llywodraeth hon nod uchelgeisiol: adeiladu cymunedau cryf lle gall pobl – beth bynnag yw eu cefndir – fyw, gweithio, dysgu a chymdeithasu gyda'i gilydd, yn seiliedig ar hawliau, cyfrifoldebau a chyfleoedd cyffredin. Rydym yn buddsoddi £50m mewn integreiddio yn ystod y ddwy flynedd nesaf i hybu'r blaenoriaethau a nodir yn y Papur Gwyrdd. Rydym yn cydnabod nad yw'r un heriau integreiddio'n bodoli ym mhob rhan o'r wlad a dyna pam yr ydym wedi gwahodd pum awdurdod lleol ledled Lloegr i fod yn rhan o'r Rhaglen Ardaloedd Integreiddio a gyhoeddwyd trwy'r Papur Gwyrdd.

*Gogledd Iwerddon*

22. Mae **Strategaeth Cydraddoldeb Hil 2015-2025**[19] Gweithrediaeth Gogledd Iwerddon wedi creu fframwaith i: fynd i'r afael ag anghydraddoldebau ar sail hil a chreu cyfleoedd i bawb; dileu hiliaeth a throseddau casineb; a hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol hil a chydlyniant cymdeithasol. Mae'r Strategaeth yn cynnwys nod cyffredin i fynd i'r afael â hiliaeth a throseddau casineb yn ogystal â'r nod cyffredin i ddileu anghydraddoldebau ar sail hil. Mae'r Strategaeth yn cynnwys camau allweddol ac nid yw'n ceisio rhestru'r holl gamau y mae angen i'r llywodraeth ac eraill eu cymryd neu y byddant yn eu cymryd yn ystod oes y strategaeth. Yn hytrach mae wedi sefydlu

[16] Yn benodol, argymhellion canlynol yr UPR: 134.84-134.85 (ar fynd i'r afael â geiriau casineb); 134.100-134.106, 134.108, 134.110-134.123 (ar fynd i'r afael a throseddau casineb).
[17] https://www.gov.uk/government/publications/lammy-review-government-response
[18] https://www.gov.uk/government/consultations/integrated-communities-strategy-green-paper
[19] https://www.executiveoffice-ni.gov.uk/publications/racial-equality-strategy-2015-2025

mecanwaith – trwy'r Is-grŵp Cydraddoldeb Hil (sy'n cynnwys pobl sy'n gweithio gyda neu sy'n cynrychioli grwpiau lleiafrifoedd ethnig a mewnfudwyr) a Hyrwyddwyr Cydraddoldeb Hil ym mhob un o Adrannau Gogledd Iwerddon – i oruchwylio'r gwaith o weithredu cynlluniau ac i fonitro ac adolygu cynnydd ar weithredu.

23. Er bod ffigurau diweddar yn dangos gostyngiad cyffredinol mewn troseddau casineb mae'n parhau i fod yn achos pryder difrifol. Mae'r Adran Cyfiawnder yn parhau i fod yn rhagweithiol yn ei hymagwedd tuag at droseddau casineb, gan gydweithio'n glos â'r sector gwirfoddol, y gymuned leol, a phartneriaid statudol ac anllywodraethol eraill i roi sicrwydd ac i annog hysbysu troseddau casineb. Rhan o'r **mesurau ennyn hyder** hyn yw ymrwymiad yn y Rhaglen Lywodraethu ddrafft i adolygu deddfwriaeth troseddau casineb i roi sylw i bryderon ynglŷn â gweithredu deddfwriaeth bresennol, yn benodol yn gysylltiedig ag arferion dedfrydu.

24. Mae'r Adran Cyfiawnder yn cynnal ymarferiad cwmpasu ar hyn o bryd i ddatblygu cylch gorchwyl cyffredinol i **adolygu'r ddeddfwriaeth gyfredol.** Bydd y broses hon yn galluogi materion penodol i gael eu hystyried, fel, ai'r dull dedfrydau uwch presennol yw'r un mwyaf priodol, a oes tystiolaeth i ategu cyflwyno troseddau gwaethygedig statudol, ac effeithiolrwydd deddfwriaeth i ddelio ag ymddygiad gwaharddedig a'u lledaenu'n gyhoeddus.

*Yr Alban*

25. Mae **Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hil** Rhagfyr 2017[20] Llywodraeth Yr Alban yn cynnwys camau i hybu newidiadau positif i gymunedau lleiafrifoedd ethnig. Trwy gydol 2017, cafodd cyfres o seminarau ar thema'r Fframwaith Cydraddoldeb Hil eu cynnal, a oedd yn cynnwys swyddogion polisi ac arbenigwyr o sefydliadau statudol a'r trydydd sector ac academia.

Mae **rhwydwaith menywod o leiafrifoedd ethnig** wedi'i sefydlu i fentora, rhoi cymorth gan gymheiriaid, meithrin galluoedd, hyfforddi, a dylanwadu ar bolisïau arferion y gweithlu/gweithleoedd – fel cynyddu nifer y menywod o leiafrifoedd ethnig mewn rolau uwch reolwyr yn y sector cyhoeddus. Roedd digwyddiad ym mis Medi 2017 yn rhoi pwyslais ar y strategaeth Equally Safe[21] 1. i atal a dileu trais yn erbyn menywod a genethod.

2. Comisiynodd Llywodraeth Yr Alban y mudiad anllywodraethol "Young Scot" i gyd-gynllunio'r prosiect Fairer Future, sy'n seiliedig ar banel o 16 o bobl ifanc 14-21 oed o amrywiaeth o gefndiroedd. Yn dilyn digwyddiad, a oedd yn cynnwys pobl ifanc, mudiadau ieuenctid, mudiadau lleiafrifoedd ethnig a llunwyr polisi perthnasol ym Mehefin 2017, cafodd yr adroddiad **Creating a Fairer Future** ei gyhoeddi ym mis Tachwedd 2017.

3. Ar 31 Mai 2018, cyhoeddodd yr Arglwydd Bracadale ei **adolygiad o ddeddfwriaeth troseddau casineb yn Yr Alban**. Mae Llywodraeth Yr Alban yn croesawu adroddiad yr

[20] http://www.gov.scot/Publications/2017/12/8700
[21] http://www.gov.scot/Publications/2014/06/7483

Arglwydd Bracadale ac mae'n derbyn yr argymhellion i gydgrynhoi holl ddeddfwriaeth troseddau casineb Yr Alban mewn un statud troseddau casineb newydd. Bydd yr adroddiad ar argymhellion yn destun ymgynghoriad ar yr hyn ddylai gael ei gynnwys mewn bil troseddau casineb newydd, a bydd Llywodraeth Yr Alban yn adrodd i Senedd Yr Alban yn yr hydref ar sut mae'n bwriadu symud ymlaen. Gwrandewir ar bob pryder a godir - wrth ddiweddaru deddfwriaeth troseddau casineb rhaid cael cydbwysedd rhwng amddiffyn a hawliau dynol, rhyddid i lefaru a rhyddid sifil. Mae Llywodraeth Yr Alban yn cydnabod na fydd deddfwriaeth ynddi'i hun yn ddigon i greu cymdeithas gynhwysol a chyfartal; fodd bynnag, gall fod yn sail i ddeall y pethau hynny nad ydynt yn dderbyniol mewn cymdeithas.

*Cymru*

4. Mae Llywodraeth Cymru'n ariannu'r corff anllywodraethol "Cymorth i Ddioddefwyr Cymru" i redeg y **Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Rhoi Cymorth ac Adrodd am Droseddau Casineb yng Nghymru**; bydd y trefniadau cyllido presennol yn parhau tan 2020. Mae hyn wedi helpu i greu system adrodd ar draws Cymru sy'n gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf i ddioddefwyr ac mae'n darparu eiriolaeth, cymorth a chyfeirio at wasanaethau eraill. Yn 2018, cynhyrchodd Cymorth i Ddioddefwyr Cymru ddeunydd dysgu 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' i helpu staff rheng flaen perthnasol yn y sector cyhoeddus, sy'n cynnwys tai, addysg, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.

5. Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu arian i bob un o Gomisiynwyr Heddlu a Throsedd Cymru i gynnal gweithgareddau yn ystod **Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb**, ar 16-20 Hydref 2017. Roedd y pwyslais ar godi ymwybyddiaeth ac ymgysylltu â chymunedau ledled Cymru, gan herio agweddau ac ymddygiad. Mae gwaith yn parhau ar hyd y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth ac i ymgysylltu â chymunedau. Mae'r wythnos yn gyfle pwysig i'n partneriaid, gan gynnwys yr Heddlu i dynnu sylw at y gwaith hwn, yn enwedig o ran annog dioddefwyr i adrodd ar droseddau.

6. Yn 2017-18, parhaodd Llywodraeth Cymru i ddarparu arian ar gyfer ei rhwydwaith o wyth **Cydlynydd Cydlyniant Cymunedol Rhanbarthol** ledled Cymru. Mae ganddynt rôl hanfodol i'w chwarae i helpu i gyflawni nodau ein rhaglen cydlyniant cymunedol, o dan bedwar amcan: adeiladu cydlyniant cymunedol ar lefel genedlaethol; cymorth cydlynu ar lefel ranbarthol i grwpiau wedi'u hynysu; helpu newydd-ddyfodiaid i integreiddio; lleddfu tyndra a mynd i'r afael â throseddau casineb. Roedd gwaith penodol ar gyfer 2017-18 yn cynnwys: helpu Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus i ystyried cydlyniant cymunedol wrth ddatblygu eu cynlluniau o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015; monitro troseddau casineb a helpu dioddefwyr trwy Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Troseddau Casineb Cymru; datblygu rhwydwaith cyfathrebu Cydraddoldeb a Chynhwysiant amlasiantaethol ledled Cymru i gyfleu negeseuon cynhwysiant positif ac i herio rhethreg negyddol; a gweithio â'r pedwar heddlu a Phrifysgol Caerdydd ar brosiect i ddatblygu ymatebion amlasiantaethol i dyndra cymunedol ar-lein ac all-lein.

*26. Mynediad at gyfiawnder* [22]

27. Mae Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd EM yn cychwyn ar **raglen £1 biliwn[23] i ddiwygio'r gwasanaethau llysoedd a thribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr,** a fydd yn arwain at foderneiddio ac uwchraddio'r system cyfiawnder i sicrhau ei bod yn gweithio'n well i bawb, o farnwyr a gweithwyr cyfreithiol proffesiynol, i dystion, ymgyfreithwyr a dioddefwyr troseddau sy'n agored i niwed. Mae'r rhaglen eisoes wedi dechrau gwella bywyd i'r sawl sy'n defnyddio ac sydd angen llysoedd. Mae nifer o wasanaethau digidol newydd o ansawdd uchel ar waith. Gall y cyhoedd yn awr wneud cais am ysgariad diwrthwynebiad ar-lein, cyflwyno ple ar-lein am droseddau lefel isel (fel troseddau traffig neu osgoi talu am docynnau bws), ymateb i wysion rheithgor, olrhain apeliadau nawdd cymdeithasol ar-lein, a chyhoeddi ac ymateb i hawliadau ariannol sifil. Mae dros 21,000 o bobl wedi defnyddio'r treialon hyn ac maent wedi cael mynediad syml, digidol at y llysoedd am y tro cyntaf, ac mae adborth y cyhoedd wedi bod yn bositif dros ben.

28. Ar 26 Gorffennaf 2017, dyfarnodd y Goruchaf Lys yn achos *R (ar gais of Unsain) v yr Arglwydd Ganghellor* [2017] UKSC 51. Cymerodd Llywodraeth y DU gamau ar unwaith i roi'r gorau i godi ffioedd mewn Tribiwnlysoedd Cyflogaeth. Ar 20 Hydref 2017, cyhoeddwyd hefyd y byddem yn lansio cam cyntaf y **cynllun Ad-daliadau Tribiwnlysoedd Cyflogaeth** ac, yn dilyn ei lwyddiant, cafodd y cynllun llawn ei gyflwyno ar 15 Tachwedd 2017. Mae manylion am yr ad-daliadau'n cael eu cyhoeddi yn y bwletin chwarterol "Tribunals and gender recognitions certificates statistics quarterly"[24].

29. Ar 30 Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU **adolygiad ar ôl gweithredu Deddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012**. Amcanion y diwygiadau i gymorth cyfreithiol oedd: annog pobl i beidio â chymryd camau ymgyfreithio diangen a gwrthwynebus ar gost i'r coffrau cyhoeddus; targedu cymorth cyfreithiol at y sawl sydd fwyaf ei angen; gwneud arbedion sylweddol i gost y cynllun; a sicrhau gwell gwerth am arian i'r trethdalwr. Nod yr adolygiad fydd asesu effaith y diwygiadau i gymorth cyfreithiol yn erbyn yr amcanion hyn. Mae canllaw, gan gynnwys y cylch gorchwyl, ar gyfer yr adolygiad ar gael i'r cyhoedd ym mhorth GOV.UK[25]. Mae cam casglu tystiolaeth yr adolygiad wedi cychwyn eisoes, gyda'r ddwy rownd gyntaf o gyfarfodydd grŵp ymgynghorol wedi'u cynnal yn Ebrill a Gorffennaf. Rydym yn awyddus i glywed gan lawer o bartïon â diddordeb i ganfod effaith y newidiadau i gymorth cyfreithiol. Un elfen yn unig o'r broses casglu tystiolaeth yw'r grwpiau ymgynghorol. Ochr yn ochr â hyn, mae tîm yr adolygiad yn cysylltu â phartïon â diddordeb mewn grwpiau llai neu gyfarfodydd dwy ochrog. Hefyd mae cyfeiriad e-bost pwrpasol i alluogi rhai â diddordeb i gyflwyno data a thystiolaeth i swyddogion i'w hystyried fel rhan o'r adolygiad. Rydym yn disgwyl cyhoeddi ein canfyddiadau'n ddiweddarach eleni. Mae Llywodraeth y DU yn bwriadu defnyddio'r cyfle hwn i ymgysylltu â rhanddeiliaid i oleuo ei chynlluniau pellach ar ddyfodol cymorth cyfreithiol yn y system gyfiawnder.

---

[22] Yn benodol, argymhelliad canlynol yr UPR 134.154.
[23] https://www.gov.uk/government/news/hmcts-reform-programme
[24] https://www.gov.uk/government/collections/tribunals-statistics#tribunal-statistics-quarterly
[25] https://www.gov.uk/government/publications/post-implementation-review-of-laspo

30. Ar 8 Ionawr 2018, daeth newidiadau i ofynion tystiolaeth mewn anghydfodau cyfraith deulu preifat i rym, gan ei gwneud yn haws i **ddioddefwyr trais domestig gael mwy o gymorth.** Nid oes terfyn amser bellach ar dystiolaeth o gam-drin, a arferai fod yn bum mlynedd. Hefyd, mae ystod y dogfennau a dderbynnir fel tystiolaeth o gam-drin wedi cael ei hehangu i gynnwys datganiadau gan fudiadau cymorth trais domestig a swyddogion cymorth tai. Yn dilyn adolygiad o'r gofynion tystiolaeth a oedd wedi'u cynnwys yn Neddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012, mae cymorth cyfreithiol ar gael i bobl sy'n rhan o anghydfodau teulu preifat os ydynt yn ddioddefwyr, neu mewn perygl o fod yn ddioddefwyr, trais domestig neu gam-drin plant.

*Yr Alban*

31. Ar 1 Chwefror 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Yr Alban **adolygiad annibynnol cynhwysfawr o gymorth cyfreithiol,** i gyflawni'r ymrwymiad i gadw mynediad at fynediad at gyllid cyhoeddus ar gyfer cymorth cyfreithiol a chynrychiolaeth mewn achosion sifil a throseddol, ochr yn ochr â mesurau i ehangu mynediad at ddulliau amgen o ddatrys anghydfodau. Er yn cydnabod bod y system bresennol yn cymharu'n ffafriol iawn yn rhyngwladol, mae'r adroddiad "Rethinking Legal Aid, An Independent Strategic Review"[26], a gyhoeddwyd fis Chwefror 2018, yn cyflwyno gweledigaeth 10 mlynedd ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Yr Alban ac mae'n gwneud 67 o argymhellion ar sut y gellir gwireddu'r weledigaeth hon. Mae argymhellion yr adroddiad yn awr yn cael eu dadansoddi ac mae trafodaethau'n parhau â rhanddeiliaid – fel Cymdeithas y Cyfreithwyr yn Yr Alban, y Faculty of Advocates, Bwrdd Cymorth Cyfreithiol Yr Alban ac eraill yn y trydydd sector – i glywed eu barn. Ar ôl cwblhau'r dadansoddiad hwn ac ar ôl datblygu cynllun gweithredu, bydd ymateb Llywodraeth Yr Alban yn cael ei gyhoeddi.

[26] http://www.gov.scot/Resource/0053/00532544.pdf

**Mynd i'r afael â masnachu pobl a chaethwasiaeth**[27]

32. Mae'r DU yn cyhoeddi **asesiad blynyddol o gaethwasiaeth fodern yn y DU,** sy'n nodi ymateb y DU yn awr ac yn y dyfodol i fynd i'r afael â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl. Cyhoeddwyd Adroddiad Blynyddol diweddaraf y DU ym mis Hydref 2017[28].

33. Ym mis Hydref 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU becyn pwysig i **ddiwygio'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol,** system y DU i ganfod a darparu cymorth cynhwysfawr i ddioddefwyr caethwasiaeth fodern. Trwy'r diwygiadau, mae Llywodraeth y DU yn ymdrechu i greu proses benderfynu gyflymach, mwy pendant a chredadwy trwy: ddigido'r broses atgyfeirio; uno'r ddau awdurdod penderfynu i greu un awdurdod cymwys; a chyflwyno panelau o arbenigwyr i sicrhau ansawdd pob un o'r penderfyniadau terfynol negyddol a wneir. Bydd y diwygiadau hefyd yn: cynyddu'r cymorth sydd ar gael i ddioddefwyr cyn, yn ystod ac ar ôl eu hatgyfeirio yng Nghymru a Lloegr; creu mannau diogel i gartrefu dioddefwyr posibl wrth iddynt ystyried cael eu hatgyfeirio; treblu'r cyfnod cymorth 'symud ymlaen' o 14 i 45 diwrnod ar gyfer dioddefwyr a gadarnhawyd ar ôl eu lleiafswm o'u cyfnod 45-diwrnod o Fyfyrio ac Adfer, wrth iddynt integreiddio i gymunedau lleol; a darparu gwasanaeth cymorth galw i mewn ar gyfer dioddefwyr ar ôl iddynt adael y broses atgyfeirio. Mae'r DU hefyd yn rhoi sylw i fregusrwydd plant trwy wneud y broses atgyfeirio'n fwy priodol i blant a chyflwyno **eiriolwyr annibynnol ar gyfer plant** i ddarparu cymorth arbenigol i blant sydd wedi cael eu masnachu. Yn olaf, mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i wella prosesau i ganfod dioddefwyr caethwasiaeth fodern trwy ehangu a chryfhau rôl staff rheng flaen sy'n canfod dioddefwyr posibl.

34. Mae Llywodraeth y DU hefyd wedi lansio'r **Fforwm Busnes yn Erbyn Caethwasiaeth,** sy'n bartneriaeth newydd rhwng llywodraeth a busnes i gyflymu'r broses o ddiddymu caethwasiaeth fodern o gadwynau cyflenwi. Yn y cyfarfod cyntaf ym mis Hydref 2017 daeth amrywiaeth o gwmnïau rhyngwladol at ei gilydd gyda'r Ysgrifennydd Cartref i rannu profiadau ac i gytuno ar gamau i weithredu ar y mater hwn.

35. Mae'r DU hefyd wedi cymryd amryw o gamau i godi'r mater ar lefel ryngwladol. Er enghraifft, ym mis Medi 2017, cynhaliodd y Prif Weinidog ddigwyddiad caethwasiaeth fodern yn ystod 72ain Sesiwn Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig. Cymeradwyodd Aelod Wladwriaethau'r Cenhedloedd Unedig a oedd yn bresennol (gyda mwy'n ymuno'n ddiweddarach) **Call to Action to End Forced Labour, Modern Slavery and Human Trafficking**[29] uchelgeisiol, gan nodi camau ymarferol y bydd gwledydd yn eu cymryd i ymateb i gaethwasiaeth fodern ac i gyflawni ymrwymiadau'r gymuned ryngwladol. Ym mis Medi 2017, cyhoeddodd Llywodraeth y DU hefyd y byddai'n cynyddu ei gwariant dramor i £150 miliwn i fynd i'r afael â chaethwasiaeth yn rhyngwladol.

---

[27] Yn benodol, argymhellion canlynol yr UPR 134.138-134.147.
[28] https://www.gov.uk/government/publications/2017-uk-annual-report-on-modern-slavery
[29] https://www.gov.uk/government/publications/a-call-to-action-to-end-forced-labour-modern-slavery-and-human-trafficking

*Gogledd Iwerddon*

36. Mae adran 12 o Ddeddf Masnachu Pobl a Chamfanteisio (Cyfiawnder Troseddol a Chymorth i Ddioddefwyr) 2015 yn rhoi gofyniad ar yr Adran Cyfiawnder yng Ngogledd Iwerddon i gynhyrchu strategaeth flynyddol ar fasnachu mewn pobl a chaethwasiaeth fodern. Mae **strategaethau blynyddol** ar gyfer 2015/16 a 2016/17 wedi'u cyhoeddi, a bydd strategaeth flynyddol ddrafft ar gyfer 2018-19 wedi cael ei datblygu'n dilyn trafodaeth â phartneriaid statudol ac anstatudol, yn amodol ar y gymeradwyaeth angenrheidiol, yn cael ei lansio ar gyfer ymgynghori'n fuan.

37. Mae adran 21 o Ddeddf Masnachu Pobl a Chamfanteisio (Cyfiawnder Troseddol a Chymorth i Ddioddefwyr (Gogledd Iwerddon) 2015 yn gosod dyletswydd ar y Bwrdd Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Ngogledd Iwerddon i wneud trefniadau i alluogi gwarcheidwad annibynnol i gael ei benodi ar gyfer plant sy'n ddioddefwyr a dioddefwyr posibl masnachu pobl, yn ogystal â phlant sydd wedi'u gwahanu oddi wrth eu teuluoedd. Yn unol â'r gofyniad hwn, ers 1 Ebrill 2018 mae **Gwasanaeth Gwarcheidwaid Annibynnol** wedi cael ei sefydlu yng Ngogledd Iwerddon i ddarparu cymorth a chyngor arbenigol i blant sydd wedi cael eu masnachu a'u gwahanu oddi wrth eu teuluoedd.

38. Cafodd **ymgyrch Ymwybyddiaeth o Gaethwasiaeth Fodern Gogledd Iwerddon** ei lansio at y Diwrnod Atal Caethwasiaeth ym mis Hydref 2017. Cymerir mantais ar gyfleoedd i hyrwyddo negeseuon atal caethwasiaeth ac i godi ymwybyddiaeth o'r mater yn rheolaidd ar draws ystod o sectorau allweddol a thrwy amrywiaeth o gyfryngau, a chynhaliwyd gweithdy llwyddiannus ym mis Ionawr 2018 gyda'r holl fudiadau rhanbarthol sydd â dyletswyddau ymatebwyr cyntaf, i wella'r broses o adnabod dioddefwyr posibl caethwasiaeth fodern i'w hatgyfeirio am gymorth at Fecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol y DU. Mae dull mwy strategol o hyfforddi a chodi ymwybyddiaeth wedi'i gynllunio, a rhoddwyd blaenoriaeth i adnodd pwrpasol i ddatblygu **Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi a Chynllun Hyfforddi ar gyfer Gogledd Iwerddon,** gyda'r gwaith yn cychwyn ym mis Mehefin 2018.

*Yr Alban*

39. Ar 30 Mai 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Yr Alban ei **Strategaeth Masnachu a Chamfanteisio**[30], sydd â'r nod o: ganfod dioddefwyr a'u helpu i fod yn ddiogel ac i wella; canfod cyflawnwyr a tharfu ar eu gweithgarwch; rhoi sylw i'r ffactorau ehangach sy'n arwain at fasnachu a chamfanteisio; a chamau penodol ar gyfer plant sydd wedi cael eu masnachu. Ar 14 Mehefin 2018, cafodd yr adroddiad cynnydd blynyddol cyntaf ar weithredu'r Strategaeth ei gyhoeddi[31].

[30] http://www.gov.scot/Publications/2017/05/6059
[31] http://www.gov.scot/Publications/2018/06/7045/0

40. Ar 29 Awst 2017, lansiodd Llywodraeth Yr Alban **ymgyrch i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd**[32]. Cynhaliwyd arolygon barn ymhlith y cyhoedd yn ystod Gwanwyn 2018 a oedd yn dangos mwy o ymwybyddiaeth o fasnachu pobl, a hefyd bod mwy o bobl yn dweud y byddent yn rhoi gwybod i'r heddlu os oeddent yn amau bod rhywun yn cael ei fasnachu[33].

41. Ar 1 Ebrill 2018, daeth newidiadau i rym i ddyblu, o 45 i 90 diwrnod, y **lleiafswm statudol** yn hyd y cyfnod lle byddai pobl sydd wedi dioddef masnachu neu gamfanteisio a ganfuwyd yn Yr Alban yn cael cymorth, ac i ddioddefwyr caethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol neu dan orfod. I adlewyrchu'r ymrwymiad hwn, yn ogystal â'r cynnydd mewn dioddefwyr a ganfuwyd trwy'r Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol, mae Llywodraeth Yr Alban wedi cynyddu'r arian a roddir i ddau fudiad sy'n helpu dioddefwyr masnachu pobl yn Yr Alban: Trafficking Awareness Raising Alliance (TARA) a Migrant Help, ac mae wedi llunio cytundeb cyllido tair blynedd i sicrhau mwy o sefydlogrwydd. Mae dros £3 miliwn wedi'i neilltuo dros gyfnod o dair blynedd. Hefyd, mae Llywodraeth Yr Alban wedi cynyddu'r cyllid ar gyfer cymorth trawma seicolegol ar gyfer oedolion sydd wedi cael eu masnachu trwy The Anchor – cynnydd o 65% i £115,000 am 2018-19. Mae plant yn cael eu helpu trwy'r system amddiffyn plant ac mae plant cymwys yn cael cymorth ychwanegol **gwarcheidwad annibynnol plant sydd wedi'u masnachu**.

42. Mae **grŵp corfforaethol** wedi cael ei sefydlu, sy'n dod â chynrychiolwyr busnesau allweddol yn Yr Alban sydd â rôl i'w chwarae wrth fynd i'r afael â masnachu pobl at ei gilydd. Mae'r grŵp yn ymchwilio i'r ddarpariaeth canllawiau a hyfforddiant i fusnesau ar fasnachu pobl; codi ymwybyddiaeth a rhannu arferion gorau a gwella ansawdd Datganiadau Caethwasiaeth a Masnachu Pobl.

[32] https://news.gov.scot/news/human-trafficking-is-closer-to-home-than-most-scots-think
[33] https://news.gov.scot/resources/human-trafficking-report

**Tiriogaethau Dibynnol ar y Goron**

*Beilïaeth Guernsey*

43. Er bod Cyfraith Hawliau Dynol (Beilïaeth Guernsey), 2000 yn un sefydledig, sy'n gweithredu'r ECHR yn Guernsey, mae dau ddatblygiad arwyddocaol ar waith, gyda hawliau dynol yn ganolog iddynt. Fel rhan o'r **Strategaeth Anabledd a Chynhwysiant**[34], cytunodd Senedd Guernsey i'r egwyddor o sefydlu **Sefydliad Cydraddoldeb a Hawliau** sy'n alinio ag Egwyddorion Paris y Cenhedloedd Unedig. Mae'r Pwyllgor Cyflogaeth a Nawdd Cymdeithasol wrthi ar hyn o bryd yn gwneud gwaith cychwynnol i ddatblygu cynnig ar gyfer sefydliad o'r fath; mae hyn yn amodol ar ffactorau fel cynllun busnes, adnoddau a blaenoriaethu. Ar 5 Mehefin 2018, cytunodd Senedd Guernsey i ehangu'r prosiect presennol i ddatblygu **cynigion i ddeddfu ar wahaniaethu ar sail anabledd** mewn prosiect, a fyddai'n datblygu cynigion ar gyfer un darn o ddeddfwriaeth sy'n cynnwys sawl sail ar gyfer amddiffyniad rhag gwahaniaethu (a all gynnwys anabledd, oedran, hil, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol, statws priodasol, ailbennu rhywedd neu hunaniaeth o ran rhywedd, statws teuluol a chrefydd). Disgwylir y bydd y cynigion ar gyfer y ddeddfwriaeth hon yn dychwelyd i Senedd Guernsey ar gyfer dadl cyn diwedd y tymor gwleidyddol hwn yn 2020.

44. Mae adolygiad o'r **ddarpariaeth i ffoaduriaid** ar VAWG wedi ei gynnal, ac mae gwaith yn cael ei wneud i ganfod hyfywedd cyflwyno darpariaeth newydd i ffoaduriaid sy'n fwy hygyrch i grwpiau penodol gan gynnwys pobl anabl, teuluoedd mawr, menywod ag anghenion cymhleth a dioddefwyr gwrywaidd. Mae "rhaglen model cyflawnwyr sy'n seiliedig ar gryfderau" newydd yn cael ei threialu. Mae'n cael ei llunio ar gyfer yr unigolyn yn hytrach na model addas i bawb. Mae'n derbyn atgyfeiriadau statudol ac anstatudol. Cafodd **gwasanaethau cam-drin domestig lleol** eu hail-gomisiynu yn 2017/dechrau 2018. Roedd hyn yn cynnwys cyllid newydd ar gyfer **Gweithiwr Eiriolaeth Trais Domestig Annibynnol.** Mae ymchwiliadau cychwynnol wedi cychwyn i ystyried ffurf **Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Genethod** Guernsey. Mae hyn yn cynnwys canfod ym mha ffordd y gallai deddfwriaeth allweddol leol elwa trwy gael ei diweddaru i alinio ag arferion gorau'r DU.

45. Mae ymchwiliad yn cael ei gynnal i **Fframwaith Cyfiawnder** fel rhan o ymrwymiadau Senedd Guernsey i wneud cyfraniad positif at ddatblygu cymdeithas gyfrifol, oddefgar a chynhwysol. Mae wedi'i gydnabod bod dod i gysylltiad â'r system cyfiawnder troseddol yn gallu bod yn brofiad brawychus i ddioddefwyr, tystion a'u teuluoedd, felly i helpu i gywiro hyn mae "A Guide for Victims and Witnesses", a noddwyd gan Senedd Guernsey, wedi cael ei gynhyrchu. Mae'n cynnwys gwybodaeth fanwl am y system cyfiawnder troseddol yn Guernsey, gan egluro sut mae'r gwahanol sefydliadau sy'n ffurfio'r system cyfiawnder troseddol i gyd yn gweithio i ddiwallu anghenion ac i wireddu disgwyliadau'r sawl sy'n cael eu heffeithio gan droseddu yn y Feilïaeth, ac mae'n egluro pa gymorth sydd ar gael a lle mae cael gafael arno.

[34] http://signpost.gg/article/151313/Improving-Island-life-for-disabled-people-and-carers

46. Mae swyddogion o amrywiaeth o feysydd o fewn Senedd Guernsey wedi ymgysylltu â'r trydydd sector i ddeall arferion gorau rhyngwladol o ran **canfod ac atal unrhyw achosion posibl o gaethwasiaeth fodern a masnachu pobl** yn Guernsey. Mae Heddlu Guernsey a'r Guernsey Border Agency yn parhau i gysylltu ag awdurdodaethau eraill i helpu i fynd i'r afael â'r broblem fyd-eang hon. Mae'r ddau endid yn cynnal asesiadau risg fel rhan o asesiadau risg cenedlaethol Project Aidant yn achos caethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

*Beilïaeth Jersey*

47. Mae **Cyfraith Troseddau Rhywiol (Jersey) 2018**[35] yn cynnwys darpariaethau i amddiffyn unigolion o bob rhyw ac, yn fwyaf penodol, mae'n ymdrech i amddiffyn plant ac oedolion agored i niwed yn Jersey rhag dioddef camdriniaeth a chamfanteisio, ac mae'n sicrhau bod modd cosbi cyflawnwyr yn briodol. Rhoddwyd cryn sylw i'r diffiniad ac i bwysigrwydd "cydsyniad" a "chred resymol", troseddau yn erbyn plant (gan oedolion a chan blant eraill), puteindra (sy'n disodli hen ddeddfwriaeth ac yn ychwanegu darpariaethau newydd) a chreu troseddau newydd yn gysylltiedig â FGM. Mae Cynulliad Jersey wedi cymeradwyo newidiadau i Ddeddf Priodasau a Statws Sifil (Jersey) 2001, a fydd yn gwella mesurau diogelu i helpu i amddiffyn rhag **priodasau dan orfod neu briodasau ffug.** Bydd y newidiadau hyn yn dod i rym ar 1 Gorffennaf, yn amodol ar ddadl y Senedd ar y Ddeddf Diwrnod Penodedig. Mae'r States of Jersey Police Strategic Assessment and Control Strategy am 2018 yn nodi Troseddu Cyfundrefnol (sy'n cynnwys puteindra) fel mater sy'n cael y flaenoriaeth uchaf, ynghyd ag amddiffyn oedolion agored i niwed a phlant.

48. Cafodd grŵp partneriaeth amlasiantaeth ei greu yn 2017 i wella ymwybyddiaeth gweithwyr rheng flaen lleol ac adrodd ar ddangosyddion **caethwasiaeth fodern**.

49. Yn dilyn **adolygiad manwl o fynediad at gyfiawnder,** gan gynnwys ymgynghoriad cyhoeddus, mae Llywodraeth Jersey wedi cynnig y dylid pennu sail gyfreithiol ar gyfer cymorth cyfreithiol yn Jersey. Cafodd Deddf Mynediad at Gyfiawnder (Jersey) 201- ei chyflwyno gerbron Senedd ym mis Chwefror 2018. Yn dilyn etholiad cyffredinol ym mis Mai, dechreuodd y Senedd ystyried y cynigion ym mis Gorffennaf 2018.

*Ynys Manaw*

50. O ran mynd i'r afael â VAWG, mae Llywodraeth Ynys Manaw yn ymgynghori ar Fil[36] y mae un o'i amcanion yn cynnwys **gwneud ymddygiad sy'n gorfodi neu reoli'n drosedd** ac sy'n cyflwyno pwerau i Gwnstabliaeth Ynys Manaw i gyhoeddi Hysbysiadau Amddiffyn Rhag Trais Domestig, a all gael eu rhoi am hyd at 28 diwrnod trwy orchymyn y llys. Mae'r darpariaethau olaf hyn yn cydnabod pan fydd yr heddlu'n cael eu galw i achos o gam-drin domestig y gall fod angen cymryd camau ar unwaith i sicrhau bod y dioddefwr yn cael eu hamddiffyn a bod y cyflawnwr yn cael ei gyfyngu neu ei symud o'r sefyllfa. Er y cydnabyddir bod dynion a menywod yn gallu cyflawni cam—drin domestig, mae mwyafrif llethol y dioddefwyr yn fenywod a genethod. Oherwydd hynny, mae'r

[35] https://www.jerseylaw.je/laws/enacted/Pages/L-20-2018.aspx
[36] https://consult.gov.im/home-affairs/criminal-justice-2018/

darpariaethau yn y Bil drafft wedi'u seilio ar hyn o bryd ar ddeddfwriaeth a geir yng Nghymru a Lloegr, ond mae Llywodraeth Ynys Manaw yn agored i ddatblygu'r darpariaethau ymhellach yn dilyn ymatebion i'r ymgynghoriad cyhoeddus, yn enwedig gan elusennau yn Ynys Manaw sy'n gweithio â dioddefwyr cam-drin domestig.

51. Mae **Deddf Cydraddoldeb 2017**[37], wedi cael ei deddfu ac mae gorchymyn cychwyn wedi'i wneud a fydd yn dod â darpariaethau'r Ddeddf o ran gwahaniaethu ar sail hil i rym ar 1 Ionawr 2019. Mae Ynys Manaw hefyd wedi rhoi adnoddau pwrpasol ychwanegol ar waith i helpu i gyflwyno'r ddeddfwriaeth newydd hon. Rhoddir ystyriaeth bellach gan Lywodraeth Ynys Manaw i gryfhau'r ddeddfwriaeth o ran annog casineb hiliol a throseddau gwaethygedig ar sail hil.

[37] https://www.gov.im/about-the-government/equality-act/

**Tiriogaethau Tramor**

52. Mae'r DU a'r Tiriogaethau Tramor yn rhannu'r un penderfyniad i hybu parch at hawliau dynol ac i fynd i'r afael â gwahaniaethu, ac i gydymffurfio ag ymrwymiadau rhyngwladol. Cadarnhawyd y penderfyniad hwn yng Nghyd-gyngor Gweinidogion y Tiriogaethau Tramor[38] ym mis Tachwedd 2017.

53. Ers Awst 2017, mae Pitcairn yn parhau â'r broses o ymestyn y **CEDAW**; mae Montserrat hefyd wedi ymrwymo i'w ymestyn. Daeth deddfwriaeth ddomestig benodol i rym yn Ynysoedd Falkland i gydnabod **priodasau o'r un rhyw a phartneriaethau sifil,** ac mae St. Helena wedi cyflwyno priodasau o'r un rhyw yn ei Deddfiad Priodasol ym mis Rhagfyr 2017. Yn Bermuda, daeth Deddf Partneriaethau Domestig 2018 i rym ar 1 Mehefin 2018, ac mae'n cynnwys fframwaith ar gyfer partneriaethau domestig ar gyfer cyplau dau ryw ac o'r un rhyw. Mae agweddau ar y ddeddfwriaeth hon yn cael eu herio ar hyn o bryd yn llysoedd Bermuda.

54. Mae Llywodraethau'r Tiriogaethau, gyda chefnogaeth Llywodraeth y DU, yn parhau i wneud cynnydd mewn **gwaith i ofalu am aelodau agored i niwed o gymdeithas**. Yng Nghyd-gyngor y Gweinidogion ym mis Tachwedd 2017, cadarnhaodd Arweinyddion y Tiriogaethau eu hymrwymiad i sicrhau'r safonau uchaf posibl i amddiffyn plant a hybu llesiant plant yn y Tiriogaethau, gan drafod cynnydd i hybu cydweithrediad rhyngasiantaethol, datblygu cynlluniau ymateb cenedlaethol i ddiffinio blaenoriaethau polisi ar gyfer diogelu plant, a'r cynnydd a wnaethpwyd o dan femorandwm cyd-ddealltwriaeth i hybu cydweithredu mwy effeithiol rhwng y Tiriogaethau ar gyfer diogelu plant.

55. Mae Tiriogaethau'n parhau i ymgorffori **mesurau amddiffyn i fenywod a genethod a mynediad at gyfiawnder troseddol** yn eu deddfwriaeth leol. Er enghraifft, mae deddfwriaeth ddrafft ar amddiffyn plant a chyfiawnder troseddol yn destun trafod yn Anguilla. Yn Ynysoedd Prydeinig y Wyryf, mae'r Deddfiad Cam-drin Domestig 2017 wedi'i chyflwyno, i wneud darpariaethau ar gyfer Gorchmynion amddiffyn i ddiogelu pobl mewn perthnasoedd domestig a phlant perthnasol rhag cam-drin domestig. Yn Ynysoedd Falkland, mae deddfwriaeth cam-drin ddomestig yn y cam drafftio i sicrhau mesurau amddiffyn sy'n ychwanegol at y Ddeddfiad Troseddau (Ebrill 2017), ac mae Heddlu Brenhinol Ynysoedd Falkland yn datblygu trefniadau i fynd i'r afael â cham-drin domestig.
Mae **Confensiwn Lanzarote**[39] wedi cael ei ddadansoddi gan Lywodraeth Ynysoedd Falkland gyda'r nod o ofyn i'r DU am estyniad cyn gynted â phosibl. Bydd rhan o'r broses hon yn cynnwys ymestyn y gwaith a wnaethpwyd gan y swyddogion prawf sy'n gweithio â throseddwyr rhyw â phlant a chyflogi cwnselydd trawma i helpu dioddefwyr, ac ym mis Ionawr 2018 cyflwynwyd Gorchmynion Gwarcheidwaeth Arbennig ar gyfer oedolion sy'n gofalu am blant. Mae deddfwriaeth ddrafft yn weithredol i gyflwyno cyfrifoldeb ar y Llywodraeth i ofalu am ei dinasyddion agored i niwed. Canfu Adolygiad annibynnol i Ddiogelwch Plant ar Pitcairn yn 2017, a oedd yn adolygu diogelu plant, ac a

[38] https://www.gov.uk/government/publications/overseas-territories-joint-ministerial-council-2017-communique
[39] https://www.coe.int/en/web/conventions/full-list/-/conventions/treaty/201

oedd yn cynnwys eu diogelu rhag trais rhywiol a mathau eraill o drais, fod holl blant Pitcairn yn ddiogel, yn iach, yn cyflawni ac yn cyfranogi. Ym mis Medi 2017 darparwyd hyfforddiant pellach a Gweithdy Cymodi ar gyfer y gymuned.

56. O ran **mynd i'r afael â gwahaniaethu ar sail hil,** mae St Helena yn rhoi sylw i rwystrau camwahaniaethu yn erbyn rhai a anwyd dramor trwy eu Deddfiad Genedigaethau a Marwolaethau (Cofrestru) a fydd yn caniatáu i enedigaethau tramor gael eu cofrestru yn St. Helena. Bydd hyn yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Deddfwriaethol safonol nesaf. O ran **mynediad at gyfiawnder,** mae Bil Diwygio Cyfiawnder Troseddol 2017 Anguilla yn y cyfnod drafft. O ran **mynd i'r afael â masnachu pobl a chaethwasiaeth**, mae Ynysoedd Prydeinig y Wyryf wedi datgan diddordeb mewn ymestyn y **Confensiwn ar Agweddau Sifil Herwgydio Plant yn Rhyngwladol**.